**AC-05-01 (min)**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 28ain Mehefin 2001

**Amser:** 2pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn Bresennol**

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Alison Halford | Delyn |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Mr Lew Hughes | Cynrychiolydd Archwiliwr Cyffredinol Cymru |
| Karen Taylor | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ian Summers | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Mike Usher | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Dave Powell | Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad Cenedlaethol |
| Marie Knox | Clerc Dros Dro y Pwyllgor |
| Nichola Brown | Dirprwy Glerc Dros Dro y Pwyllgor |

**Eitem 1 ar yr Agenda: Sesiwn Cymryd Tystiolaeth – Crynodeb o Gyfrifon yr NHS, 1999-2000**

**Papur: AC-04-01 (p.1)**

1.1 Roedd Lorraine Barrett yn cymryd lle Lynne Neagle. Eithriwyd Peter Law rhag cymryd rhan yn y cyfarfod o dan Reol Sefydlog 12.7. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones a Kirsty Williams.

1.2 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn cysylltiad ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru ar *Cyfrifon Cryno'r NHS 1999-2000* a gyhoeddwyd ar 30ain Mawrth 2001.

1.3 Ceir adysgrif gair am air o'r eitem hon fel atodiad i'r cofnodion hyn.

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwraig, NHS Cymru |
| Sara Beaver | Prif Swyddog Cyllid, NHS Cymru |
| Jan Williams | Prif Weithredwr, Awdurdod Iechyd Bro Taf |

**Eitem 2: Sesiwn cymryd tystiolaeth – Hyfforddiant Proffesiynol Iechyd**

**Papurau :** AC-04-01(p.2) a AC-04-01(p.10)

2.1 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn cysylltiad ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru ar *Addysgu a Hyfforddi Gweithlu Proffesiynol Maes Iechyd y Dyfodol* i Gymru a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2001.

1.3 Ceir adysgrif gair am air o'r eitem hon fel atodiad i'r cofnodion hyn.

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, NHS Cymru |
| Alan Hanna | Penaneth Adnoddau Dynol, NHS Cymru |
| Steve Martin | Prif Weithredwr, Elwa |
| Roger Carter | Pennaeth Rhaglenni, Elwa |

**Eitem 3 ar yr Agenda: Polisi Dosbarthu Adroddiadau Embargo**

**Papur:** AC-04-01 (p.3)

3.1 Cytunodd y pwyllgor ar y polisi o ddosbarthu copïau embargo o adroddiadau cyn eu Cyhoeddi yn gyffredinol fel yr amlinellir yn y papur.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

**Papur:** AC-04-01 (min)

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Papurau i'w nodi:**

4.2 Nododd y Pwyllgor gywiriad David Edwards i'r dystiolaeth a roddodd yng ngwrandawiad 8 Mawrth 2001 ar esgeulustod clinigol. Roedd y Pwyllgor yn poeni'n fawr bod Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau'r NHS a holwyd yn y gwrandawiad wedi credu mai £1,000 oedd yr uchafswm ar daliadau ex gratia tra £1,000,000 oedd yr uchafswm mewn gwirionedd a bod y gamddealltwriaeth hon yn debygol o fod wedi atal ymddiriedolaethau'r NHS rhag cynnig taliadau ex gratia mewn amgylchiadau priodol. Cytunodd y Pwyllgor i nodi hyn yn ei adroddiad.

4.3 Nododd y pwyllgor yr ohebiaeth gan Mr Jon Shortridge oedd yn nodi y gellid dehongli sylwadau yn Adroddiad y Pwyllgor ar Adeiladau'r Cynulliad i awgrymu ei fod wedi ceisio camarwain y Pwyllgor. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cadeirydd ysgrifennu at Mr Shortridge i gadarnhau nad bwriad y Pwyllgor o gwbl oedd honni ei

fod wedi ceisio camarwain y Pwyllgor ond ei fod yn ystyried iddo ateb y cwestiynau a ofynnwyd iddo yn ddidwyll.

4.4 Nododd y Pwyllgor bod llythyr Edwina Hart yn ailgyfeirio ymateb y Cabinet i'r Adroddiad Adeiladau wedi gofyn i'r Pwyllgor ystyried ymestyn yr amser y mae'n rhaid i'r Cabinet ymateb i adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio o dan Reol Sefydlog 12.5. Cytunodd y Pwyllgor i ohirio ystyried hyn tan y pwyllgor nesaf.

4.5 Daeth y cyfarfod i ben am 17.05pm.